OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 526 (Cy. 79)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Dolwen, i’r gogledd-ddwyrain o Lanidloes, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mai 2023* |
| *Yn dod i rym* | *19 Mai 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Dolwen, i’r gogledd-ddwyrain o Lanidloes, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mai 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn neu gerbydau

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

perchnogion/meddianwyr sydd angen cael mynediad i fangreoedd sydd yng nghyffiniau'r ffordd sydd wedi ei chau;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 19 Mai 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 y Drenewydd i Aberystwyth.

## Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd i'r gogledd-ddwyrain o Lanidloes, Powys sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2023 i Ddolwen hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2775 i Rallt.

## Cymhwyso

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Mai 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru